DŴR CYMRU
WELSH WATER

Defnyddio dŵr yn ddoeth

GWYBODAETH CWSMERIAID

Ffeithiau am Ddŵr

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu cymaint o ddŵr ag sydd ei angen arnoch yn eich cartref, pan fydd ei angen arnoch, beth bynnag fo'r tywydd, amser o'r dydd neu'r flwyddyn.

Mae rhanbarth Dŵr Cymru yn elwa ar gyfuniad o lawiad blynyddol uchel ac amodau tirwedd sy'n ffafrio crynhoi dŵr. Mewn blwyddyn arferol rydym yn cyflenwi tua 950 miliwn litr o ddŵr i'n cwsmeriaid bob dydd, ond yn ystod tywydd poeth a sych yr haf, a'r gaeaf rhewllyd (sy'n gallu achosi i bibellau fyrstio) gall y ffigwr dyddiol hwn godi i dros 1,150 miliwn litr. Yng Nghymru caiff y diwydiant twristiaeth effaith fawr ar y defnydd o ddŵr. Yn ystod misoedd yr haf rydym yn croesawu tua 10 miliwn o dwristiaid bob blwyddyn ac mae tua 4 miliwn o'r twristiaid hyn yn aros yma am gyfnodau hirach.

Er hyn, gwyddom nad ydych am i ni gymryd mwy o ddŵr o'r amgylchedd nag sydd ei angen arnom. Rydym yn llwyr ymrwymedig i warchod dŵr a hybu effeithlonrwydd dŵr.

Rhagolygon ar gyfer y dyfodol

Gallech ofyn pam ein bod yn ymrwymedig i warchod dŵr, o ystyried ein bod wedi cael rhai o'r glawiadau uchaf ers i gofnodion ddechrau yn ystod y gaeafau diwethaf. Fodd bynnag, y darlun ehangach yw bod glawiad parhaol yn cadw ein cronfeydd dŵr yn iach yn y tymor byr, ond mae amgylchiadau newidiol eraill y mae angen ymdrin â hwy, er enghraifft tŵf yn y boblogaeth a chynnydd yn y cyfartaledd o ddŵr a ddefnyddir. Gyda'r ffordd o fyw fodern sydd ohoni mae'r defnydd o ddŵr yn codi yn syfrdanol. Rydym yn cymryd bath yn amlach, ac mae gan fwy o gartrefi beiriannau golchi dillad a pheiriannau golchi llestri sy'n golygu ein bod yn defnyddio llawer mwy o ddŵr na chwarter canrif yn ôl. Er enghraifft yng nghanol y 1970au defnyddiodd pob person, ar gyfartaledd 110 litr (24 galwyn) y diwrnod. Heddiw mae'r ffigwr hwnnw wedi codi i dros 140 litr (30 galwyn) y dydd. Os bydd y duedd bresennol yn parhau gallem fod yn defnyddio 160 litr (35 galwyn) yr un bob dydd erbyn 2020.

Wrth i bryderon am yr amgylchedd gynyddu yng Nghymru mae'n iawn y dylai pob un ohonom feddwl yn fwy gofalus am sut ydym yn defnyddio dŵr, ac mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae.
Mae Dŵr Cymru wedi gallu lleihau'r perygl o brinder dŵr trwy reoli ein systemau adnoddau, y cronfeydd, echdynnu o afonydd a dyfrdyllau yn ofalus er mwyn i ni allu ymdopi â thywydd sych heb orfod defnyddio mesurau sychder i wneud echdyniadau o'r amgylchedd naturiol. Rydym hefyd yn rheoli ein systemau cyflenwi a dosbarthu yn ofalus i leihau gwastraff a sicrhau'r effeithlonrwydd gorau yn y defnydd o ddosbarthu dŵr i'n cwsmeriaid. Rhan o'n cynllun adnoddau dŵr yw hybu defnydd cyfrifol o ddŵr gan ein cwsmeriaid trwy annog defnydd effeithlon o ddŵr.

Faint o ddŵr a ddefnyddir bob dydd a'r rhagolwg ar gyfer y dyfodol.



Cadw Gollyngiadau yn Isel

Rydym yn gwneud defnydd gwell o'n hadnoddau trwy leihau gollyngiadau o'n system ddosbarthu. Effeithir ar lefelau gollyngiadau gan nifer o ffactorau gan gynnwys hyd, oed a chyflwr rhwydwaith y brif bibellau dŵr ac amodau gweithredu orau yr hinsawdd a'r ddaear. Gwnaed gwelliannau arwyddocaol trwy waith monitro parhaus gan ein timau atgyweirio, sy'n cywiro miloedd o ollyngiadau bob blwyddyn, pryd bynnag a ble bynnag y byddant yn digwydd. Dros gyfnod o bum mlynedd (rhwng 1995-2000) rydym wedi llwyddo i leihau gollyngiadau 30%.

Gallwch chi ein helpu hefyd. **Rhowch wybod i ni os byddwch yn darganfod gollyngiad trwy ffonio ein llinell gollyngiadau ar 0800 281 432**. Mae ein timau darganfod gollyngiadau yn addo ymateb o fewn 24 awr.

Cynlluniau Atgyweirio Am Ddim

Fel rhan o'n hymrwymiad i leihau gollyngiadau rydym hefyd yn cynnig gymhellion i gwsmeriaid i helpu i wrthsefyll y broblem. Er enghraifft, er bod perchnogion tai yn gyfrifol am eu rhan hwy o'r bibell wasanaeth rhwng y tap cau a'u cartref, byddwn yn atgyweirio gollyngiad ar ran y perchennog o'r eiddo yn **rhad ac am ddim**. Am fwy o wybodaeth ffoniwch ni ar radffon **0800 052 0130.**



Beth am ddewis mesurydd?

Gallech arbed dŵr ac arian drwy newid i fesurydd dŵr. Fel arfer ni chodir tâl am osod mesurydd yn eich cartref. Beth am ffonio ein llinell gymorth gosod mesurydd ar radffon 0800 052 0145 am fwy o wybodaeth

Defnyddio Dŵr yn y Cartref

I ble mae dŵr yn mynd?



Defnydd doeth o ddŵr yn yr ystafell ymolchi

Gall pob un ohonom helpu i arbed dŵr yn yr ystafell ymolchi trwy ddilyn yr awgrymiadau hyn.

A ddylech gael bath neu gawod?

Gallwch arbed amser a dŵr trwy gael cawod. Os byddwch yn cael bath gallech ddefnyddio hyd at 80 litr (18 galwyn) o ddŵr, ond gyda chawod rydych yn fwy tebygol o ddefnyddio tua 30 litr (7 galwyn).

Defnyddio basn ymolchi

Pan fyddwch yn golchi eich dwylo sicrhewch eich bod yn rhoi plwg yn y basn ymolchi a pheidiwch â gadael i'r tap redeg. Gall tap sy'n rhedeg ddefnyddio hyd at 9 litr o ddŵr y munud.

Os byddwch yn gadael i'r tap redeg wrth lanhau eich dannedd gallwch wastraffu llawer o ddŵr. Trowch y tap i ffwrdd wrth lanhau eich dannedd, a golchwch eich ceg ar y diwedd gyda bicer o ddŵr.

Fflysio'r toiled

Mae dros draean o'r dŵr sy'n cael ei ddefnyddio yn mynd i lawr y toiled –bob tro y caiff toiled ei fflysio defnyddir rhwng 7 a 9 litr o ddŵr. Gall cwsmeriaid elwa ar osod dyfais arbennig i arbed dŵr yn y seston sy'n lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir tra'n parhau i lanhau bowlen y toiled. Ar hyn o bryd rydym yn cynnig dyfais arbed dŵr 'Hippo' a fydd o fudd penodol i sestonau mwy a hŷn. Rydym yn cynnig dyfais 'Hippo' i bob cwsmer sy'n gofyn am un. Os hoffech ofyn am un ffoniwch ni ar radffon **0800 052 0145.**

Defnydd doeth o ddŵr yn y gegin

Peiriannau golchi dillad a pheiriannau golchi llestri

Mae peiriant golchi dillad yn defnyddio hyd at 80 litr o ddŵr fesul cylchred pa un a yw'r peiriant yn llawn ai beidio, a gall peiriant golchi llestri ddefnyddio rhwng 22 a 35 litr fesul cylchred. Pan fyddwch yn newid eich hen beiriannau ystyriwch ddewis peiriant ECO "dŵr effeithlon". Sicrhewch fod eich peiriant golchi dillad a'ch peiriant golchi llestri yn llawn bob tro y byddwch yn eu defnyddio.

Golchi llestri

Peidiwch byth â rinsio llestri o dan dap sy'n rhedeg, defnyddiwch bowlen golchi llestri bob tro y byddwch yn golchi llestri. Mae hefyd yn ddefnyddiol defnyddio'ch dŵr golchi llestri yn yr haf i ddyfrhau eich planhigion. Mae dŵr sy'n cynnwys hylif golchi llestri yn atal y pryf gwyrdd.

Golchi a phlicio llysiau a ffrwythau



Peidiwch byth â golchi a phlicio eich llysiau a ffrwythau o dan dap sy'n rhedeg. Os ydych yn gwneud hyn rydych yn gwastraffu dŵr glân. Yn hytrach na hyn rhowch blwg yn y sinc – os byddwch yn gadael i'ch llysiau socian byddant yn haws i'w plicio.

Berwi'r tegell

Llenwch y tegell gyda chymaint o ddŵr ag sydd ei angen i wneud eich te, coffi neu i goginio. Os byddwch yn llenwi'r tegell hyd at yr ymyl bob tro y byddwch yn berwi dŵr byddwch yn gwastraffu trydan yn ogystal â dŵr.

Awgrymiadau ar sut i leihau'r defnydd o ddŵr yn y cartref

Rydym yn gweithio'n galed i leihau gollyngiadau yn ein system ddosbarthu – gallwch chi helpu trwy leihau gollyngiadau yn eich cartref.

Tapiau sy'n gollwng

Yr unig beth sydd ei angen ar y mwyafrif o dapiau sy'n gollwng yw wasier newydd. Gall tapiau sy'n gollwng golli 31,500 litr y flwyddyn – mwy nag un bath yr wythnos.

Diogelu rhew

Gwnewch yn siwr bod yr holl bibellau a thanciau dŵr y tu mewn a'r tu allan i'r tŷ wedi'u lagio'n ddigonol. Gall gaeafau oer achosi i'ch pibellau diamddiffyn rewi a gall y dadmer achosi llifogydd yn eich cartref, os nad yw eich tanciau a'ch pibellau wedi'u hinswleiddio.

Gorlifiadau

Sicrhewch nad yw eich gorlifiadau yn llifo'n ddiangen.

Dyfrhau'r ardd

Yr ardd yw'r lle y defnyddiwn y mwyafrif o ddŵr ar adegau. Gall chwistrellwyr dŵr ddefnyddio hyd at 1,000 litr o ddŵr mewn awr - sef 220 o alwyni, sydd yn fwy na'r hyn y bydd teulu yn ei ddefnyddio mewn deuddydd yn y tŷ